



ArtWorks  
Cymru

## TENDR AR GYFER YMGYNGHORYDD DATBLYGU BUSNES

### Cefndir

Ers 2011 bu ArtWorks Cymru yn datblygu ymarfer mewn gosodiadau cyfranogol yng Nghymru. Rhwng 2011 a 2014 cafodd ei ariannu gan Sefydliad Paul Hamlyn fel rhan o'u Cynllun Arbennig ArtWorks, ac yna aeth ymlaen i gynnal rhaglen dwy flynedd o waith rhwng 2015-2017, wedi'i gydariannu gan Sefydliad Paul Hamlyn a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae gan ArtWorks Cymru yn awr ystod o asedau, adnoddau a pherthnasoedd, a chaiff ei gefnogi gan bartneriaeth gref a gweithgar. Mae model perchnogaeth ddsbarthedig sydd wedi ennill ei blwyf ar waith, ac mae'r prosiect wedi cyflawni rhai darnau pwysig o waith yn y rhaglen ddiwethaf.

Mae Partneriaeth ArtWorks Cymru wedi datblygu gweledigaeth, credoau ac amcanion ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

### GWELEDIGAETH

Mae ArtWorks Cymru yn dymuno defnyddio brand a gwybodaeth ArtWorks i greu rhaglen wedi'i sefydlu o ddigwyddiadau ar gyfer Cymru a'i hartistiaid a gynlluniwyd i adeiladu cydnherthedd a hyder yn y sector celfyddydau cyfranogol a chryfhau ecosystem cyfranogiad.

Mae ArtWorks Cymru yn dymuno datblygu cymuned ymarfer ledled Cymru sy'n ymroddedig i ddysgu, rhannu a thyfu. Bydd y gymuned yn croesi dulliau celf a sectorau, gan ddod ag addysg uwch ac addysg bellach, artistiaid llawrydd, sefydliadau a chomisiynwyr ynghyd. Yn y ffordd hon, mae ArtWorks Cymru yn anelu newid y sgwrs, cryfhau'r sector a chodi proffil ac ansawdd profiad cyfranogiad yn y celfyddydau.

### CREDOAU

- Rydym yn credu fod pawb yn greadigol.
- Mae'r gelf gyfranogol orau yn drawsnewidiol, ar gyfer artistiaid, unigolion a chymunedau.
- Mae ymarfer cyfranogol yn cynnwys rhyngweithio creadigol lle mae'r artist yn rhoi'r fframwaith a'r trylwyrddeb, a'r cyfranogydd yn dod â'u profiad a'u hunigrywedd.
- Mae'r artist yn hwyluso, creu, cydweithio a dehongli, yn gyd-ddysgwyr ...
- Gall sefydliadau dyfu a dysgu, harneisio gwerthoedd diwylliannol a'u trosglwyddo i genedlaethau newydd o artistiaid.

## EGWYDDORION ALLWEDDOL

Wrth i ni symud ymlaen o'r cyfnod ymchwil, mae ArtWorks Cymru wedi dynodi rhai egwyddorion allweddol fydd yn sylfaen cadarn i'n gwaith yn y dyfodol:

1. Trosglwyddo i'r sector - meithrin ac ymwreiddio'r ymarfer nesaf
2. Adeiladu ar ddysgu ArtWorks - defnyddio'r hyn a wyddom fel llwyfan i dyfu ohono
3. Canolbwyntio ar yr artist - gan alluogi'r cyfranogwyr i arwain a diffinio'r dyfodol
4. Cysylltu Cymru gyda'r sector ehangach yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol - gan gymryd ein lle mewn sgwrs ehangach.

## NODAU

- Parhau i ehangu cymuned ymarfer o amgylch y celfyddydau cyfranogol yng Nghymru, gan ymestyn tu allan i'r Sector Celfyddydau ac adeiladu cydnerthedd a hyder.
- Creu gofod meddwl a myfyrio ar gyfer y celfyddydau cyfranogol yng Nghymru lle gellir ystyried, rhannu a datblygu ymarfer.
- Eiriol dros ac arddangos gwerth ymarfer celfyddydau cyfranogol mewn amrywiaeth o wahanol gyd-destunau.
- Dod yn gynrychiolydd hysbys ac uchel ei barch dros y celfyddydau cyfranogol yng Nghymru.

## AMCANION POSIBL AR GYFER CYFNOD TRI

- Datblygu model arweinyddiaeth ar gyfer y celfyddydau cyfranogol yng Nghymru
- Ymestyn y Sesiwn Hyfforddiant Egwyddorion Ansawdd a chynnal prosiect Astudiaethau Achos Egwyddorion Ansawdd.
- Ymestyn cyfleoedd Cronfa Sbarduno i ddatblygu syniadau, adnoddau a chynlluniau cydweithio newydd yng Nghymru.
- Cysylltu gydag ymgyrchoedd ehangach Cynghrair ArtWorks a hyrwyddo cysylltiad i asedau a grwpiau gweithredu a ddatblygwyd drwy aelodau'r Gynghrair.
- Ymchwilio arfer gorau mewn casglu data.
- Cydweithio gyda rhwydweithiau allweddol eraill i gefnogi rhaglenni cenedlaethol, megis Rhwydweithiau Celfyddydau mewn Addysg neu rwydwaith Celfyddydau, Iechyd a Llesiant.

Mae partneriaeth ArtWorks Cymru yn cynnwys y sefydliadau a'r artistiaid dilynol ar hyn o bryd: Arts Active, Arts Alive, Artis Cymuned, Arts Connection, Ballet Cymru, Bethan Marlow, Celf ar y Blaen, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, Cerddoriaeth Gymunedol Cymru, Cofis Bach, Dawns Powys, Engage Cymru, Ffilm Cymru Wales, Forget-Me-Not Productions, Llenyddiaeth Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru, Melaneaia Warwick, Mess up the Mess, National Theatre Wales, Nofit State Circus, Sherman Cymru, Theatr Ffynnon, Theatr Genedlaethol Cymru, Valleys Kids, Youth of Creative Arts.

## Ymgynghoriaeth Datblygu Busnes

Mae ArtWorks Cymru yn edrych am Ymgynghorydd Datblygu Busnes i helpu'r bartneriaeth i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer ei gwaith yn y dyfodol. Bydd yr Ymgynghorydd yn gwneud y gwaith dilynol:

- Gweithio gyda Rheolwr y Bartneriaeth i fwydo i gyfarfodydd ymgynghori a sgysiau gyda phartneriaid a chydweithwyr presennol, darpar bartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru.
- Adolygu adroddiadau, asedau a pherthnasoedd allweddol presennol ArtWorks Cymru.
- Adroddiad yn nodi'r holl fodelau posibl fyddai'n helpu ArtWorks Cymru i gyflawni ei nodau a hysbysu cynigion cyllid y dyfodol.
- Cyflwyno'r adroddiad i Bartneriaid cyfredol.

Cytunwyd ar yr amserlen ddilynol ar gyfer y gwaith.

Gorffennaf 2017            Penodi Ymgynghorydd

Gorffennaf/Awst 2017    Cyfarfodydd ymgynghori ledled Cymru

Cynnal adolygiad o adroddiadau, asedau a pherthnasoedd allweddol

Medi 2017                Cyflwyno'r Adroddiad i'r Bartneriaeth

Bydd Rheolwr Partneriaeth ArtWorks Cymru yn eich cynorthwyo wrth gyflawni'r gwaith hawn.

## Ffi

Gall ArtWorks Cymru gynnig ffi o £2500 am gyflawni'r gwaith hwn. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cymryd 10 diwrnod ar gyfradd o £250 y dydd. Bydd y ffi yn cynnwys TAW.

I wneud cais am y rôl hon, anfonwch CV a llythyr ategol at Rhian Hutchings erbyn dydd Llun 26 Mehefin. Cynhelir cyfweiliadau ddydd Llun 3 Gorffennaf rhwng 2pm-5pm yng Nghaerdydd.

Rhian Hutchings, Rheolwr Partneriaeth ArtWorks Cymru

[rhianhutchings@outlook.com](mailto:rhianhutchings@outlook.com)

07966 450299